

Polisi ADAS ar gyfer y Gymraeg



Cyflwyniad

Mae'r datganiad polisi hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod ADAS Limited yn fusnes masnachol sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr.

Rydym yn cydnabod bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg ac na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn barhaus i gyflawni'r uchelgais hwn ac mae'r polisi iaith hwn yn cyflwyno ein hymrwymiaidau cyfredol ynghylch defnyddio'r Gymraeg.

Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymiaidau yn y polisi hwn mewn ffordd resymol – maent wedi'u cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu rai sy'n cael eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac wedi'u cyfyngu hefyd i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau am y polisi hwn at:

Cate Barrow, Cyfarwyddwr, ADAS Cymru
Canolfan Fusnes Henstaff Court
Y Groes-faen
Caerdydd
CF72 8NG
Ebst: cate.barrow@adas.co.uk

Nodau

- Byddwn yn cyfathrebu â chwsmeriaid trwy gyfrwng eu dewis iaith pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn ymarferol.
- Cyflwynir wyneb cyhoeddus ADAS Cymru yn ddwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl – yn cynnwys arwyddion, deunyddiau marchnata, papur pennawd a deunyddiau ysgrifennu.
- Bydd y sefydliad yn annog ac yn hwyluso'r ffordd i'r staff gynyddu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Y Ddelwedd Gyhoeddus

Arwyddion parhaol

Mae'r rhan fwyaf o'n harwyddion parhaol yn ddwyieithog. Bydd arwyddion **newydd** mewn manau cyhoeddus/ardaloedd ymwelwyr yn ddwyieithog. Bydd yr arwyddion presennol yn cael eu newid a'u hadnewyddu pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes effeithiol.

Arwyddion dros dro

Byddwn yn cynnwys rhagor o Gymraeg ar arwyddion dros dro pan gânt eu cynhyrchu.

Enw Corfforaethol

'ADAS Wales' sydd ar logo'r cwmni ar hyn o bryd ac fe'i defnyddir heb gyfieithiad. Fodd bynnag, cyfeirir at 'ADAS Wales' fel 'ADAS Cymru' mewn gwaith ysgrifenedig Cymraeg. At ddibenion marchnata yn unig y mae'r logo hwn ac nid yw'n cynrychioli uned fusnes ar wahân.

Deunyddiau ysgrifennu a chardiau busnes

Mae rhai o'n deunyddiau ysgrifennu yn ddwyieithog. Caiff deunyddiau ysgrifennu a chardiau busnes eu cynhyrchu'n ddwyieithog wrth iddynt gael eu hailarchebu.

Y Wefan A Gwasanaethau Digidol

Mae ein gwefan yn uniaith Saesneg ac nid oes gennym wasanaethau digidol sy'n cyfeirio'n benodol at Gymru.

Hysbysebu A Marchnata

Nid ydym yn hysbysebu trwy ddarlledu ar hyn o bryd. Nid ydym yn hysbysebu yn y wasg Gymraeg. Mae ein hysbysebion recriwtio yn Saesneg yn unig gan fod y swyddi'n rhai ar gyfer Prydain gyfan.

Cyhoeddiadau print

Bydd holl daflenni hyrwyddo newydd ADAS Cymru yn ddwyieithog os daw cais gan y cwsmer. Bydd datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog os bydd digon o amser i drefnu cyfieithiad a'i olygu.

Byddwn yn sicrhau bod deunyddiau arddangos a marchnata newydd neu ddiwygiedig yn ddwyieithog os ydynt yn ymwneud yn benodol â Chymru a bod cais yn dod gan y cwsmer.

Cyfathrebu

Olrhain dewis iaith

Gallwn gofnodi ac olrhain dewis iaith ein cysylltiadau busnes wrth ddatblygu neu ddiweddarau ein systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) os yw'r cwsmer yn gofyn am hynny.

Cyfathrebu wyneb yn wyneb

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth Gymraeg bob amser, rydym yn sicrhau bod o leiaf un aelod o staff sy'n medru siarad Gymraeg ar gael ym mhob gweithle lle ceir cysylltiad â'r cyhoedd.

Rydym yn cynnwys logo ADAS Cymru ar fathodynau enwau corfforaethol staff yng Nghymru a'n nod yw cynnwys logo iaith Gwaith ar fathodynau enwau newydd y staff sy'n gallu siarad Gymraeg.

Cyfathrebu dros y ffôn

Mae pob aelod o'r staff yn gallu trosglwyddo ymholiad a gymerir yng Nghymru i gydweithiwr sy'n gallu siarad Gymraeg. Bydd pobl sy'n dymuno cynnal y sgwrs yn y Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i aelod priodol o'r staff ac, os nad oes un ar gael, cynigir i rywun eu ffonio yn ôl o fewn 1 diwrnod gwaith.

Gohebiaeth (papur ac electronig)

Caiff llythyrau ac adroddiadau eu hysgrifennu yn newis iaith y cwsmer fel y mynegir wrth gysylltu â nhw ac fe gaiff y ddewis iaith ei nodi ar ffeil y cwsmer fel y gellir cyfeirio at hynny yn y dyfodol. Caiff llythyrau ac adroddiadau eu cyfieithu pan fydd angen.

Cyfathrebu cysylltiad cyntaf

Pan fyddwn ni'n anfon llythyrau allan yn ddigymell (arolygon ac ati), byddant yn ddwyieithog os nad yw hynny'n effeithio ar gost argraffu a phostio. Os yw costau postio yn sylweddol uwch ar gyfer fersiynau dwyieithog (oherwydd faint o bapur a ddefnyddir), caiff llinell ei chynnwys yn y llythyr gwreiddiol yn cynnig fersiwn Gymraeg os gwneir cais am un.

Cyfieithu

Caiff yr holl gyfieithiadau ysgrifenedig eu comisiynu trwy Hwylusydd y Polisi Iaith (Enys Young). Gwneir y cyfieithiadau gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol a bydd aelod awdurdodedig o staff ADAS Cymru yn eu gwirio/golygu o safbwynt technegol.

Mae gan Hwylusydd y Polisi Iaith restr o staff ADAS Cymru sydd wedi'u hawdurdodi i olygu cyfieithiadau a bydd yn adolygu perfformiad y darparwr cyfieithiadau gyda nhw yn rheolaidd.

Y Staff A'r Gweithle

Asesu anghenion sgiliau iaith wrth recriwtio

Byddwn yn ystyried ac yn cofnodi pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg y mae eu hangen ar gyfer pob swydd newydd gan ein sefydliad yng Nghymru.

Cofnodi a datblygu sgiliau iaith ein staff

Rydym yn cadw cofnod anffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff sy'n gweithio'n bennaf yng Nghymru. Rydym yn asesu ac yn cofnodi sgiliau iaith Gymraeg pob aelod newydd o'r staff wrth iddynt ymuno â'n sefydliad.

Rydym yn cydnabod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Byddwn yn annog staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau yn y Gymraeg i fynd ar gyrsiau hyfforddi priodol. Gall y Rheolwr Adnoddau ddewis rhoi cyfraniad tuag at yr hyfforddiant os yw'r unigolyn yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg.

Cyfathrebu mewnol

Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o'n staff a'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr a'r cwsmeriaid.

Cyhoeddiadau mewnol

Nid oes gennym gyhoeddiadau mewnol sy'n benodol ar gyfer Cymru ond byddwn yn defnyddio rhagor o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol pryd bynnag y bydd yn rhesymol gwneud hynny.

Arweiniad

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf yn ein sefydliad.

Hwylusydd y polisi iaith

Mae gennym Hwylusydd Polisi Iaith. Mae'r hwylusydd yn gyfrifol am:

- Cyflwyno'r polisi i staff ADAS Cymru.
- Cadw golwg i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol a'i ddiweddarau.
- Cynnig unrhyw arweiniad, cymorth neu eglurhad y gofynnir amdanynt ar y polisi.
- Rhoi staff mewn cysylltiad â chyfieithwyr proffesiynol.
- Cydlynu'r ymateb ar unrhyw welliannau posibl i'r polisi.

Ymwybyddiaeth

Bydd polisi hwn ar gael yn gyfleus i'n holl staff ar fewnwyd y Cwmni a bydd ar gael i'r cyhoedd os gofynnant amdano.

Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn.

Gwasanaethau Wedi Eu Darparu Ar Ein Rhan

Rydym yn annog pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn.



Ian Strudwick
Rheolwr Cyfarwyddwr
RSK ADAS Limited

PS25WEL Argaffied: 05
Ionawr 2018